



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Marleyfield House

**MARLEYFIELD HOUSE
NANT MAWR ROAD
BWCLE
CH7 2BL**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/11/2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gwasanaeth yn 'Marleyfield House' ar gyfer 32 o bobl.

Mr Mark Holt yw'r unigolyn cyfrifol ac ef sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth.

Mae rheolwr wedi'i benodi a'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru i reoli'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth ym Mwcle ger canol y dref ac amwynderau lleol.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl yn hapus ac roedd y sylwadau am ofal a chymorth yn gadarnhaol – byddai pob un ohonynt yn argymhell y gwasanaeth i'w ffrindiau a'u teulu. Mae angen datblygu'r dulliau o gynllunio gofal er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu gofal disgwylidig ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â'r nod o hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Mae angen gwella dulliau cadw cofnodion cysylltiedig fel eu bod yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth gwirioneddol a ddarperir er mwyn gallu cymryd camau gweithredu amserol os oes angen i ddiwallu anghenion y bobl sy'n newid.

Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd y staff yn defnyddio dull caredig a gofalgwr wrth ddarparu gofal a chymorth ond nid oedd gan bob aelod o'r staff y sgiliau i gyfathrebu â'r bobl sy'n byw gyda dementia yn hyderus er mwyn sicrhau bod y bobl bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt ddewis a rheolaeth dros faterion sy'n bwysig iddynt.

Mae systemau sicrhau ansawdd ar waith ond mae angen eu datblygu er mwyn helpu'r rheolwr i ddathlu llwyddiannau'r gwasanaeth a llywio gwelliannau yn unol ag arferion gofal gorau.

Mae'r amgylchedd yn grymuso'r bobl ac yn eu hannog i fod yn annibynnol. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da ac felly mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA). Nid oedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar welliannau ond cânt eu harchwilio mewn arolygiadau dilynol.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cynllunio gofal a rheoli risgiau.
- Staffio.
- Sgiliau a gwybodaeth y staff i ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia.
- Cadw cofnodion.
- Y Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol'.
- Yr amgylchedd ac arwyddion y staff.

1. Llesiant

Ein canfyddiadau

Ar y cyfan, mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau dyddiol. Dangosodd y cofnodion cynllunio gofal y gofynnir am hoffterau'r bobl a bod gan y staff y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fod yn ymwybodol o'r hyn sydd bwysicaf i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gwnaed cais am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ôl y gofyn a defnyddiwyd dull tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd pennaf yr unigolyn. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y bobl yn gallu dod at ei gilydd i leisio barn gyfunol am y gofal a'r gwasanaethau roeddent yn eu derbyn. Fel rhan o systemau sicrhau ansawdd, gofynnwyd i'r bobl leisio eu barn er mwyn helpu i lywio'r gwasanaeth. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn helpu'r bobl i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ond nid oedd gan bob aelod o'r staff y sgiliau i gyfathrebu'n effeithiol â'r bobl sy'n byw gyda dementia. Defnyddiwyd arwyddion, blychau atgofion a dulliau eraill er mwyn helpu gyda chyfeiriadedd y bobl a hyrwyddo eu hannibyniaeth. Ar y cyfan, caiff y bobl gymorth i fynegi eu barn ac maent yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd, gan helpu i wella eu llesiant.

Caiff anghenion iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu diwallu. Dangosodd y cofnodion fod y gwasanaeth yn gofyn am gyngor ac arweiniad gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gyffredinol er mwyn sicrhau y caiff anghenion y bobl eu hadolygu a'u diwallu. Roedd y dulliau o gadw cofnodion yn anghyson felly nid oedd bob amser yn glir a oedd y bobl wedi derbyn y gofal a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt ar yr adeg gywir. Cafwyd sylwadau cadarnhaol am y gofal a'r cymorth a ddarperir / dderbynnir ac roedd y bobl yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Er bod gweithgareddau'n cael eu darparu i gadw'r bobl yn brysur, roedd eu barn yn amrywiol a theimlai rhai pobl y byddai mwy o deithiau yn fuddiol. Ar y cyfan, caiff dulliau ysgogi cadarnhaol, cyngor ac arweiniad eu defnyddio a'u darparu yn ôl y gofyn er mwyn helpu'r bobl i gadw'n iach.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i nodi achosion o gam-drin a rhoi gwybod amdanynt. Dangosodd y cofnodion fod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn teimlo'n ddiogel ac roedd y sylwadau am ddiogelwch y bobl yn gadarnhaol. Roedd angen i ymwelwyr lofnodi llyfr ymwelwyr fel rhan o fesurau diogelwch y cartref. Roedd ardal awyr agored ddiogel y gallai'r bobl ei defnyddio'n rhydd. Nid oedd cofnodion diogelu yn cael eu cadw i ddangos y canlyniadau a'r hyn a ddysgir wrth lywio gwelliannau. Roedd yr adborth am y rheolwyr yn gadarnhaol ac roedd y perthnasau'n teimlo'n hyderus y byddai unrhyw bryder y byddent yn ei godi yn cael ei ystyried o ddifrif a'i ddatrys. Roedd systemau sicrhau ansawdd ar waith ac roedd angen datblygu'r maes hwn er mwyn sicrhau bod cyflawniadau'n cael eu dathlu a bod gwelliannau'n cael eu nodi er mwyn llywio arferion gofal da. Ar y cyfan, mae systemau ar waith er mwyn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae gan y gwasanaeth dair uned ar wahân ac mae ardaloedd cymunedol, ystafelloedd ymolchi a chegin fach ym mhob un. Defnyddiwyd arwyddion lliw, dwyieithog ac ar ffurf lluniau yn ogystal â chymhorthion eraill er mwyn helpu'r bobl i ddod i adnabod eu hamgylchedd ac i hyrwyddo eu hannibyniaeth. Roedd ardaloedd o ddiddordeb i'r bobl eu mwynhau yn ogystal â murluniau mawr a memorabilia. Roedd gardd ddiogel ag ardaloedd o ddiddordeb â thema i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau yn rhydd. Roedd y fynedfa i'r cartref yn ddiogel, yn groesawgar ac yn cynnig ardal ychwanegol i'r bobl gymdeithasu ynddi. Roedd asesiadau risg ar waith i leihau a rheoli risgiau. Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn creu amgylchedd sy'n rhoi ymreolaeth i'r bobl ac sy'n hyrwyddo llesiant unigol.

2. Gofal a Chymorth

Ein canfyddiadau

Caiff anghenion a dewisiadau'r bobl eu nodi fel rhan o'r broses o gynllunio gofal ond mae angen datblygu'r agwedd hon ar y gofal. Gwnaethom ni (AGC) siarad â'r rheolwr a ddywedodd wrthym fod y cartref yn rhan o gynllun i wella prosesau cynllunio gofal a'i fod wedi ennill y wobr efydd ac yn gweithio tuag at y wobr arian. Gwnaeth adolygiad allanol o ansawdd y gofal nodi meysydd o arfer da a meysydd i'w gwella, a oedd yn cyd-fynd â'n canfyddiadau. Roedd y cofnodion gofal wedi'u mynegeo ac roedd y wybodaeth a oedd yn bwysig i'r staff wedi'i ffeilio yn y blaen, a oedd yn golygu ei bod yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth. Er bod y staff yn gofyn am ddewisiadau'r bobl, nid oedd y wybodaeth bob amser yn adlewyrchu'r hyn roedd y bobl yn gallu ei wneud drostynt eu hunain na'r cymorth yr oedd ei angen arnynt gan y staff, er mwyn sicrhau bod y staff yn helpu'r bobl i gynnal sgiliau bywyd ac yn hyrwyddo annibyniaeth lle y bo'n bosibl. Dywedodd ymwelydd wrthym fod y gwasanaeth wedi gofyn am ei farn yn y gorffennol: "*Originally asked for views but not now*". Nid oedd y wybodaeth yn glir ynglŷn ag anghenion y bobl sy'n newid a oedd yn golygu nad oedd gan y staff wybodaeth gyfredol i ddiwallu anghenion y bobl yn briodol ac roedd anghenion un person wedi newid yn sylweddol. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'r staff ynglŷn â strategaethau ymdopi a thynnu sylw priodol ar adegau pan oedd pobl yn ofidus.

Gwnaethom hefyd edrych ar gofnodion gofal cysylltiedig ond gan fod anghysondebau yn y cofnodion, nid oedd yn glir p'un a oedd y bobl wedi cael eli wedi'i ragnodi, digon o hylif a gofal lleddfu pwysau. Nid oedd y wybodaeth ynglŷn â rheoli pwysau yn glir; roedd person wedi colli pwysau, ond nid oedd unrhyw wybodaeth i ddangos p'un a oedd hyn yn bryder ai peido. Er bod un person yn gwrthod gofal iechyd y geg yn rheolaidd, nid oedd unrhyw wybodaeth i helpu'r staff i reoli'r angen hwn a nododd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fod hylendid ei geg yn wael iawn. Gwnaethom drafod ein pryderon â'r rheolwr a chytunodd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Nododd adborth o'r holiaduron i berthnasau fod ansawdd y gofal yn wych. Ar y cyfan, gofynnir am ddewisiadau'r bobl fel rhan o'r broses o gynllunio gofal ond mae angen datblygu hyn ymhellach er mwyn dangos bod y bobl yn derbyn gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau gwirioneddol ac i wella eu llesiant.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Roedd y cofnodion gofal yn nodi sut roedd y bobl am i'r staff gyfeirio atynt a gwelsom y staff yn defnyddio'r enwau a ffeirir gan y bobl. Ystyrir bod hyn yn arfer da gan ei fod yn dangos parch ac yn helpu'r bobl sy'n byw gyda dementia i gynnal eu hunaniaeth. Gwelsom fod y staff yn defnyddio dull caredig a gofalgarg wrth ddarparu gofal a chymorth. Roedd y staff yn cyffwrdd â'r bobl yn briodol er mwyn cynnig cysur a thawelwch meddwl iddynt. Roedd y staff yn rhoi cymorth i'r bobl symud, yn egluro'r hyn roeddent yn ei wneud ac yn rhoi sicrwydd i'r bobl wrth wneud hynny. Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn symud yn rhy gyflym i'r bobl gan nad oeddent bob amser yn rhoi amser i'r bobl brosesu neu ymateb i wybodaeth. Gall hyn achosi

dryswch a gwneud i bobl deimlo'n rhwystredig ac yn ddibwys. Roedd un person am fwyta ei ginio yn y lolfa ond ni chafodd gymorth i wneud hynny. Y diwrnod canlynol, roedd yr un person am fwyta ei ginio yn y lolfa unwaith eto a chynigiodd y staff i ddarparu ar ei gyfer; roedd anghysondeb yn null y staff gan olygu nad oedd dewis y person bob amser yn cael ei ystyried. Gwnaethom drafod ein harsylwadau â'r rheolwr a ddywedodd "*It was a learning curve*" gan egluro y gallai'r bobl fwyta ble y mynnent. Dangosodd cofnodion hyfforddiant y staff eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar godi a chario a gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia ac roedd y staff yn teimlo eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ofalu am bobl ag anghenion cymhleth. Roedd ymwelydd yn teimlo bod gan y staff yr hyfforddiant a'r sgiliau i ofalu am bobl. Roedd adborth o adroddiad allanol ar ansawdd y gofal yn cynnwys "*Manager and staff are wonderful, listen to me and give me choices*", "*Staff are marvellous, very caring...*", a "*Staff listen to what you want and act if they can*". Gwnaethom edrych ar gofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth o ran gofal. Roedd y sylwadau'n cynnwys "*Care is wonderful*" a "*Everyone (staff) is very kind and patient*". Byddai pob un ohonynt yn argymhell y gwasanaeth i'w teulu a'u ffrindiau. Ar y cyfan, mae dull y staff yn garedig ac yn ofalgar ond er bod yr adborth yn gadarnhaol, roedd diffyg sgiliau gan rai aelodau o'r staff i gyfathrebu'n effeithiol â'r bobl sy'n byw gyda dementia er mwyn sicrhau bod gan y bobl bob amser ddewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Gwelsom fod barn y bobl a phobl bwysig eraill yn cael ei chasglu mewn achosion lle roedd angen Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd pennaf y bobl. Roedd adroddiad allanol ar ansawdd y gofal yn cynnwys sylwadau gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth megis "*You can do what you want.....*" a "*Staff are always nice with you, helpful, listen and give you choices*". Dangosodd cofnod hyfforddiant y staff fod rhai ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid fel bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gefnogi hawliau dynol pobl. Ar y cyfan, mae gan y staff y sgiliau i roi cymorth i'r bobl wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch materion sy'n effeithio arnynt.

Caiff y bobl gymorth i fod yn egnïol ac yn iach ond mae angen datblygu'r agwedd hon ar ofal a chymorth. Roedd adroddiad allanol ar ansawdd y gofal yn cynnwys sylwadau gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ogystal â'u perthnasau megis, "*My physical and mental health is good and I write poetry and keep mentally active which I am helped to do*" a "*Their (people using the service) health is promoted*". Dangosodd y cofnodion gofal fod y gwasanaeth yn gofyn am gyngor ac arweiniad yn gyffredinol. Roedd anghenion gofal iechyd y bobl yn cael eu hadolygu gan y meddyg teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Roedd y staff yn cynnig lluniaeth a byrbrydau i'r bobl. Roedd un perthynas yn teimlo y gellid cynnig mwy o ddiodydd drwy gydol y dydd a theimlai rhywun arall fod y staff yn rhoi cymorth da i'w berthynas yfed. Roedd y sylwadau am ansawdd y bwyd yn gadarnhaol, er enghraifft "*The food is amazing, nutritious and quality food....*" a "*Catering staff are very good*". Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r bobl yn gadarnhaol wrth hel atgofion ac roedd

y bobl yn mwynhau hyn. Roedd y farn ynglŷn â gweithgareddau'n amrywiol, ond dangosodd yr adborth y byddai mwy o weithgareddau a theithiau o fudd i'r bobl. Gwelsom y staff yn rhoi sylwadau cadarnhaol i'r bobl ar eu hymddangosiad. Roedd yr adborth gan berthnasau yn nodi bod y staff gofal yn "*Very caring, always very helpful and the medication was on time*" ac roedd yr adborth o holiaduron y staff yn cynnwys "*High standards of care, top priority is happiness and safety of service users*" a "*Personal care - sense of pride and what's important to the person*". Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn gadarnhaol, mae'r bobl yn hapus a dangosodd y cofnodion fod y gwasanaeth yn gofyn am gyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau y caiff anghenion y bobl eu hadolygu a'u diwallu.

3. Yr Amgylchedd

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion. Roedd y cartref yn gynnes ac yn lân ac roedd awyrgylch croesawgar a chartrefol yno. Roedd mynedfa'r cartref yn cynnwys lolfa i'r bobl ei defnyddio yn ogystal â deunyddiau darllen, a gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardal hon. Roedd y cartref yn cynnwys tair uned, ac roedd pob uned yn cynnwys lolfa, ardal fwyta a chyfleusterau ystafell ymolchi. Gwelsom fod blychau atgofion, ffotograffau ac eitemau personol a oedd yn bwysig i'r bobl yn cael eu defnyddio i'w helpu gyda chyfeiriadedd ac i hyrwyddo eu hannibyniaeth fel y gallai'r bobl ddod o hyd i'w hystafelloedd gwely eu hunain. Defnyddiwyd dulliau eraill i helpu'r bobl i ddod o hyd i gyfleusterau a chanfod yr amser a'r tywydd hefyd. Roedd y cynlluniau seddi yn creu ardaloedd cymdeithasol i'r bobl ddod at ei gilydd a sgwrsio. Defnyddiwyd cymhorthion i hyrwyddo annibyniaeth y bobl yn ystod amseroedd prydau ond gwelsom fod mygiau plastig yn cael eu defnyddio. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a eglurodd ei bod yn anodd dod o hyd i fygiau sy'n ddigon ysgafn i'r bobl eu defnyddio, ond defnyddir eitemau o'r fath ar gyfer picniciau / yn yr awyr agored ac ni chânt eu hystyried yn arfer da ym maes gofal dementia. Roedd ardaloedd o'r cartref yn helpu i greu ysgogiad gweledol a sbarduno sgysiau oherwydd y murluniau a baentiwyd. Roedd ardal ddiogel yn yr awyr agored ar gael i'r bobl ei defnyddio'n rhydd ac roedd y murluniau a baentiwyd yn creu ardaloedd â thema a mannau o ddiddordeb. Gwelsom fod gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr fel rhan o'r mesurau diogelwch er mwyn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar adroddiad allanol ar ansawdd y gofal a oedd yn dangos bod y bobl yn teimlo'n ddiogel. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys "*I feel very safe and I have to say if I didn't feel safe I wouldn't stay*", "*Staff go out of their way to make residents feel safe and this leads to it being a happy home*", "*XXX enjoys the food and feels safe and well cared for*" a "*I feel absolutely safe and this feels like a home not an institution*". Roedd cath, byji a physgod yn y cartref a oedd yn creu ymdeimlad cartrefol ac yn darparu therapi i'r bobl a oedd yn dymuno ei gael. Caiff y dulliau hyn eu hystyried yn arfer da ac maent yn helpu i hyrwyddo amgylchedd sy'n addas ar gyfer gofal dementia.

Gwnaethom hefyd edrych ar ystafelloedd gwely rhai o'r bobl ac roeddent wedi'u personoli â ffotograffau, lluniau ac addurniadau. Gwnaethom edrych ar gyfleusterau ystafell ymolchi a gweld bod yr arwyddion a oedd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r staff yn amhriodol ac yn amharu ar yr ymdeimlad croesawgar. Roedd hysbysfwrdd staff wedi'i arddangos fel bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac ymwelwyr yn gallu gweld pa aelodau o'r staff oedd ar ddyletswydd. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r cartref i roi gwybod i'r bobl am ddigwyddiadau. Fel enghraifft o arfer da, gwelsom fod powlenni o ffrwythau a sudd ar gael i'r bobl helpu eu hunain iddynt ac roedd gan bob uned gegin fach y gallai'r bobl a'u hymwelwyr eu defnyddio i baratoi eu lluniaeth eu hunain, ond ni welsom y cyfleuster hwn yn cael ei ddefnyddio. Ym mis Mehefin 2019, rhoddodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd y sgôr uchaf posibl i'r gegin, sef 'pump', a oedd yn cyfateb i dda iawn. Gwelsom brawf larwm tân yn cael ei gynnal i brofi diogelwch tân fel rhan o fesurau diogelwch arferol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a oedd yn dangos bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelwch tân hwn ac felly byddent yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Gwnaethom edrych ar gofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac ni chodwyd unrhyw bryder ynglŷn â glendid y cartref na'r gwasanaeth golchi dillad. Dangosodd yr adborth fod y bobl yn teimlo bod y gwasanaeth golchi dillad yn "*Very good*" a "*Excellent*" a bod y cartref "*Always clean and tidy*", "*Spotlessly clean*" a "*Bedroom is lovely and clean*". Roedd un aelod o'r staff yn teimlo y gellid gwella decor y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cynlluniau i ddatblygu ac ymestyn y gwasanaeth er mwyn creu lle ar gyfer mwy o bobl. Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd sy'n addas ar gyfer gofal dementia, sy'n helpu i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol a gwella llesiant y bobl.

4. Arwain a Rheoli

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant y staff, a lle caiff y staff eu cefnogi a'u hyfforddi. Dangosodd cofnodion hyfforddiant y staff eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia, diogelu, chwythu'r chwiban ac atal cwmpadau, ymhlith eraill. Cadarnhaodd yr adborth o holiaduron y staff eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ofalu am y bobl sy'n byw gyda dementia; nodwyd bod yr hyfforddiant yn wych a bod eu dealltwriaeth o ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia yn dda neu'n dda iawn. Roedd ymatebion perthnasau yn eu holiaduron yn nodi eu bod yn teimlo bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl. Gwnaethom edrych ar gofnod goruchwyllo'r staff a ddangosodd eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd, ac mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt drafod eu gwaith, unrhyw bryderon sydd ganddynt o bosibl ac ethos gofal y cartref. Gwnaethom edrych ar gofnodion o gyfarfodydd y staff a ddangosodd fod materion yn ymwneud ag lechyd a Diogelwch a gofal dementia ymhlith y pynciau a drafodwyd. Roedd y staff yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi ac yn eu gwerthfawrogi. Cadarnhaodd yr adborth gan berthnasau eu bod yn gyfarwydd â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol a nododd y staff a'r perthnasau fod y rheolwr yn wych. Ar y cyfan, caiff buddsoddiad ei wneud i ddatblygu'r tîm o staff. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth yn eu rôl a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar y gofal y mae'r bobl yn ei gael.

Ni all y bobl dderbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith bob amser ond mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at wella hyn. Cafodd proffil un dudalen a chofnod cydberthynas eu creu. Ystyrir bod hyn yn arfer da gan ei fod yn darparu gwybodaeth gryno i'r staff am y person fel unigolyn unigryw, gan sicrhau felly eu bod yn gwybod beth sydd bwysicaf i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gwnaethom edrych ar gofnod y darparwr a oedd yn nodi bod Marleyfield House yn wasanaeth dwyieithog ac nad oedd unrhyw un sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Roedd y cofnod yn nodi bod pob aelod o'r staff yn cael cynnig mynd ar gyrsiau Cymraeg a bod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau cwrs Sgyrsiau Creadigol, a oedd yn fuddiol – *'Aided them in carrying out various activities in the residents first language'*. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff ond nid oeddent yn cynnwys hyfforddiant iaith Gymraeg. Gwnaethom edrych ar y Datganiad o Ddiben, sef dogfen gyfreithiol gyfrwymol sy'n nodi'r gofal a'r gwasanaethau y gall y bobl ddisgwyl eu derbyn. Dangosodd y ddogfen fod y gwasanaeth yn gweithio tuag at fenter Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas â'r Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Nid oedd y cofnodion gofal yn adlewyrchu dewis y bobl o ran dull cyfathrebu. Ar y cyfan, roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn anghyson ac felly nid yw'n glir i'r bobl p'un a allant dderbyn eu gofal a'u cymorth yn eu dewis iaith ai peidio.

Gall y bobl gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth. Roedd y Datganiad o Ddiben yn dangos bod adborth yn cael ei groesawu – *'From our residents and their families and friends*

as this assists us to improve our service' – a dyma'r dull a ddefnyddiwyd. Dangosodd y cofnodion o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth y gofynnir am eu barn ond nid oeddent yn dangos pa gamau gweithredu a gymerwyd, os o gwbl, mewn perthynas ag unrhyw faterion a godwyd. Dangosodd cofnodion dilynol fod rhai materion a godwyd gan y bobl wedi gwella. Gwnaethom edrych ar adroddiad a luniwyd gan yr unigolyn cyfrifol er mwyn adlewyrchu ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth a ddarperir. Dangosodd yr adroddiad fod barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi'i chasglu fel rhan o fesurau sicrhau ansawdd er mwyn gwella'r gwasanaeth. Roedd y perthnasau a'r staff yn cytuno ar y cyfan y gallant gyfrannu eu barn ac y gwrandewir arnynt. Ar y cyfan, mae trefniadau ar waith i gasglu barn y bobl er mwyn llywio'r gwasanaeth a gânt.

Er bod y bobl yn derbyn gwasanaeth o ansawdd, mae angen datblygu'r maes hwn. Gwnaethom edrych ar y ffordd y caiff meddyginiaeth a chwympiadau eu rheoli. Roedd llyfr cyfathrebu'n cael ei ddefnyddio i fonitro effaith meddyginiaeth; nid oedd unrhyw adnoddau'n cael eu defnyddio i gasglu'r wybodaeth berthnasol ac nid oedd y cynlluniau gofal yn nodi'r strategaethau ymdopi a thynnu sylw y dylai'r staff eu defnyddio i roi cymorth i berson cyn penderfynu defnyddio meddyginiaeth. Gwelsom lythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn dangos bod dosau meddyginiaeth wedi'u hadolygu a'u lleihau oherwydd sgil effeithiau tawelyddu. Caiff hyn ei ystyried yn arfer da er mwyn sicrhau nad yw'r bobl yn cael meddyginiaeth yn ddiangen. Gwnaethom edrych ar Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a ddangosodd fod y bobl yn cael meddyginiaethau ar bresgripsiwn.

Roedd llwybr cwympiadau ar waith a chaiff hyn ei ystyried yn arfer da gan ei fod yn helpu'r staff i reoli cwympiadau ac roedd adroddiadau o ddigwyddiadau'n cael eu cwblhau. Roedd un person wedi cwmpo sawl gwaith, roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi digwydd heb oruchwyliaeth ac roedd y person hwn yn defnyddio cyfarpar arbenigol nad oedd wedi'i asesu i'w ddefnyddio. Nid oedd unrhyw wybodaeth i nodi tueddiadau megis p'un a oedd y lefelau staffio yn ddigonol o ystyried bod sawl person wedi cwmpo heb oruchwyliaeth. Nododd y Datganiad o Ddiben fod chwe aelod o'r staff yn gweithio yn y tair uned ac roedd rota'r staff a'r staff ar ddyletswydd yn cadarnhau hyn. Dangosodd archwiliadau o gwympiadau y cafwyd 97 o gwympiadau ers mis Ionawr 2019 ond roedd y wybodaeth yn gyfyngedig ac felly nid oedd yn helpu'r rheolwr i leihau a rheoli'r achosion hyn. Gwnaethom ofyn am y protocol ar gyfer cwympiadau / anafiadau i'r pen ond ni chafodd hyn ei ddarparu. Yn dilyn yr arolygiad, eglurodd y rheolwr "*We follow first aid guidance if anybody falls and bangs their head we call paramedic's for them to check injur(y)ie and decide if the person needs hospital, if the head injur(y)ie is treated in hospital we follow the discharge letter (from) off the hospital*". Roedd y staff yn teimlo bod ganddynt y cyfarpar yr oedd ei angen arnynt i wneud eu gwaith wrth helpu pobl i symud. Gwnaethom drafod materion yn ymwneud â diogelu â'r rheolwr ond nid oedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos canlyniadau ac i lywio dysgu. Ar y cyfan, er bod systemau sicrhau ansawdd ar waith, mae angen eu datblygu er mwyn helpu'r rheolwr i nodi cryfderau'r gwasanaeth, meysydd sydd angen eu gwella a'r camau i gwblhau'r gwelliannau gofynnol o fewn amser penodol, fel y gall y bobl gael budd o wasanaeth rhagweithiol sydd wedi'i lywio gan arferion gofal gorau.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA).

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym wedi rhoi gwybod i ddarparwr y gwasanaeth bod angen gwneud gwelliannau o ran cynllunio gofal a rheoli risgiau – Rheoliad 15 – er mwyn cyflawni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar adeg yr arolygiad, a rhoddodd y rheolwr sicrwydd i AGC fod y maes hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu'r maes hwn yn yr arolygiad nesaf.

Rydym hefyd yn argymhell:

- Dylai darparwr y gwasanaeth sicrhau y caiff y staff eu cyflogi / defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod y bobl yn cael eu goruchwyllo'n briodol, er mwyn helpu i leihau a rheoli cwmpadau a sicrhau bod gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd.
- Dylai darparwr y gwasanaeth sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt a bod cymwyseddau'n cael eu profi er mwyn sicrhau y gall y staff ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia a rhoi cymorth iddynt yn effeithiol
- Dylai darparwr y gwasanaeth sicrhau bod cofnodion gofal yn cael eu cwblhau'n gywir i adlewyrchu'r gofal a'r cymorth gwirioneddol y mae'r bobl wedi'u derbyn. Bydd hyn yn helpu'r staff i gymryd camau amserol os bydd angen er mwyn diwallu anghenion unigol a bydd yn helpu'r rheolwr i wneud atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gael cyngor ac arweiniad.
- Dylai darparwr y gwasanaeth barhau i weithio tuag at fenter Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol'.
- Dylai darparwr y gwasanaeth sicrhau bod unrhyw arwyddion diangen i roi cyfarwyddiadau i'r staff yn cael eu tynnu i lawr er mwyn cynnal urddas y bobl a chreu awyrgylch cartrefol.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd yr arolygiad hwn yn rhan o adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o ganlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal.

Gwnaethom gynnal arolygiad dirybudd ar 26 Tachwedd 2019, rhwng 09:25 a 15:45, ac arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ar 27 Tachwedd 2019, rhwng 09:15 a 15:40. Cynhaliwyd yr arolygiad gan un arolygydd.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom edrych ar sampl ar hap o gynlluniau gofal, asesiadau risg a chofnodion gofal cysylltiedig.
- Gwnaethom edrych ar gofnodion a ddelir gan y gwasanaeth a oedd yn cynnwys cofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, cofnodion o gyfarfodydd staff, cofnodion y staff, polisïau a gweithdrefnau a chofnodion sicrhau ansawdd.
- Gwnaethom siarad â thri pherson sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ymwelwyr â'r cartref, tri aelod o'r staff a'r rheolwr.
- Gwnaethom ddsbarthu holiaduron i gasglu adborth gan y staff a'r perthnasau a chawsom ddau ymateb gan y staff a phum ymateb gan y perthnasau.
- Gwnaethom edrych ar y safle a oedd yn cynnwys unedau Gwynydd, Elizabeth a Diana, ardaloedd cymunedol, cyfleusterau ystafell ymolchi ac ystafelloedd gwely rhai o'r bobl.
- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu 2 (SOFI 2). Mae'r adnodd hwn yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.
- Gwelsom y Datganiad o Ddiben a'i gymharu â'r gwasanaeth a welsom ar waith. Mae'r Datganiad o Ddiben yn pennu gweledigaeth y gwasanaeth ac yn dangos y ffordd y bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl y mae'n gofalu amdanynt, yn enwedig o ran y lefelau staffio a hyfforddiant ac ati.

Gwnaethom ystyried pryder dienw a godwyd gydag AGC cyn yr arolygiad mewn perthynas â rheoli achosion o gwmpadau. Rydym wedi cyflwyno ein canfyddiadau ym mhrif gorff yr adroddiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal
Darparwr y Gwasanaeth	Cyngor Sir y Fflint
Unigolyn Cyfrifol	Mark Holt
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	32
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	16 Tachwedd 2017
Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn	26 a 27 Tachwedd 2019
Iaith weithredol y gwasanaeth	Saesneg
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 26/02/2020